**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA P KW 2638 18

Mrs Bethan Sayed AC,
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Gorffennaf 2018

Annwyl Bethan

**TARO'R TANT: YMCHWILIAD I ARIANNU ADDYSG CERDDORIAETH A GWELLA MYNEDIAD ATI**

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i addysg cerddoriaeth, rwy'n falch o atodi ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r adroddiad a'r argymhellion.

Mae'r wybodaeth hon yn Atodiad A y llythyr.

Er mai addysg cerddoriaeth oedd pwyslais yr ymchwiliad, mae'r Adroddiad a'i argymhellion yn mynd y tu hwnt i gyfrifoldebau fy mhortffolio i. Mae ymateb atodedig Llywodraeth Cymru felly'n adlewyrchu'r effaith a'r goblygiadau ar feysydd portffolio o fewn Addysg, Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, ac ar draws y Llywodraeth gyfan.

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am yr adroddiad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'ch uchelgais o ddarparu mynediad cyffredinol, o'r radd flaenaf, at addysg cerddoriaeth i bob dysgwr yma yng Nghymru. Hefyd, rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod llwybrau dysgu priodol ar gael i'r dysgwyr hynny sydd am ddatblygu a gwella eu harbenigedd a'u profiadau cerddorol, ac rydych yn cydnabod yn gywir y camau a gymerwyd yn y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Mae'r argymhellion, fel ag y maent, yn rhai sylweddol, gyda goblygiadau pellgyrhaeddol i'r sector addysg cerddoriaeth. O'r herwydd, bydd angen amser ac adnoddau priodol i bwyso a mesur popeth yn iawn. Rwy'n gwbl ymwybodol o'r holl bwysau sy'n wynebu gwasanaethau cerddoriaeth a'r angen i weithredu ar fyrder. Nid dweud hynny er mwyn oedi cyn ystyried a gweithredu'r argymhellion posibl yr wyf fi, ond rwy'n siŵr y deallwch fod

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

angen pwyso a mesur sawl mater ac y byddai’n gam gwag pe baem ni ddim yn gwneud hyn yn iawn ac yn drylwyr.

Fe gewch chi’r manylion diweddaraf gennyf yn rheolaidd. Gobeithio bod hyn yn dderbyniol i chi.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

## Atodiad A

**Argymhelliad 1**
Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo’r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol hyd braich sydd â model a phatrwm penodol ar gyfer darpariaeth pob rhanbarth. Dylai’r corff cenedlaethol gael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru a dylid ei wneud yn gyfrifol am sicrhau bod disgyblion a staff sy’n gweithio yn y sector addysg cerddoriaeth, ni waeth lle y maent na beth yw eu cefndir cymdeithasol, yn elwa ar gyfleoedd cyfartal. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y corff cyfrifol unrhyw arian ychwanegol sydd ei angen er mwyn cynnal cydraddoldeb mynediad ar lefel Cymru gyfan.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn barn y Pwyllgor o sicrhau bod mynediad at gerddoriaeth ac addysg cerddoriaeth ar gael i bob dysgwr sy’n dymuno cymryd rhan, waeth ble mae e, beth yw ei gefndir cymdeithasol na’i allu i dalu. Rydym yn gwneud ein gorau glas i ddileu popeth sy’n rhwystro plant rhag cymryd rhan, ac yn croesawu’r adroddiad hwn a’i argymhellion.

Nid Llywodraeth Cymru sy’n uniongyrchol gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth, ond yn hytrach awdurdodau lleol sy’n derbyn cyllid trwy’r Grant Cynnal Refeniw. Ni allwn drosglwyddo’r maes hwn yn gyflym nac yn llwyr i gorff arall heb roi ystyriaeth lawn i effaith a goblygiadau hynny.

Rydym yn cytuno ar yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, yn amodol ar ganlyniad astudiaeth ddichonoldeb i nodi ac asesu’r opsiynau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cerddoriaeth, gan gynnwys addasrwydd un sefydliad i lywio’r maes hwn; a faint o gyllideb sydd ar gael i roi casgliadau’r astudiaeth gychwynnol ar waith. I ddechrau, rydym yn cynnig cynnal proses ymgynghori gychwynnol i gael barn rhanddeiliaid a phartneriaid ar y mater hwn, ond yr awdurdodau lleol fydd â’r gair olaf.

Byddai angen ystyried goblygiadau’r gyllideb ar awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill wrth weithredu’r argymhelliad hwn, yn sgil casgliadau’r astudiaeth ddichonoldeb.

Byddwn yn adrodd am hynt yr astudiaeth ddichonoldeb hon i’r Pwyllgor, cyn pen chwe mis.

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gymryd perchnogaeth strategol o wasanaethau cerddoriaeth drwy ymgynghori â rhanddeiliaid (ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith) er mwyn paratoi Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cerddoriaeth. Er mwyn parhau i fod yn addas i’r diben, dylai’r Cynllun Gweithredu gael ei adolygu’n rheolaidd a chyhoeddi adroddiad yn flynyddol

**Ymateb: Gwrthod**
Nid wyf yn credu y dylwn i ysgwyddo’r cyfrifoldeb strategol am wasanaethau cerddoriaeth gan nad yw’n rhan o’m mhortffolio i.

Byddai angen cynnal darn o waith sylweddol a phellgyrhaeddol er mwyn paratoi Cynllun Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cerddoriaeth, a byddai’n torri ar draws gweithgareddau parhaus eraill o fewn meysydd portffolios Gweinidogol eraill. Ni fyddai hyn y broblem ynddo’i hun, ond byddai’n golygu oedi anorfod a sylweddol wrth daclo’r blaenoriaethau sy’n wynebu’r ddarpariaeth gerddoriaeth ar hyn o bryd.

O gofio cylch gwaith a chwmpas yr Ymchwiliad hwn, fodd bynnag, os yw’r argymhelliad hwn (a rhai dilynol) yn cyfeirio at Gynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth yn hytrach na Chynllun Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, gallaf gadarnhau y byddaf yn ymestyn yr

astudiaeth ddichonoldeb i ystyried creu cynllun ar gyfer addysg cerddoriaeth. Hefyd, rwy'n cadarnhau y byddaf yn parhau i gydweithio â'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon. Wrth gwrs, byddwn hefyd yn awyddus i weithio gyda chi wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, gan gydnabod y safbwynt fel y nodwyd yn y paragraffau blaenorol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i adolygu telerau ac amodau staff y gwasanaeth cerddoriaeth i sicrhau eu bod mor gyson â phosibl fel mater o frys.

**Ymateb: Derbyn**
Byddwn yn annog awdurdodau lleol i adolygu amodau a thelerau staff cerddoriaeth, trwy waith fy swyddogion yn arwain ar y cynnig Dysgu Proffesiynol.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, yn amodol ar y pwyntiau uchod ynghylch datblygiad ar byramid addysg cerddoriaeth Llywodraeth Cymru, y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod arian, cefnogaeth a chyngor digonol ar gyfer y rheini sydd am sefydlu modelau amgen, dichonadwy o ddarpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth, ar yr amod bod unrhyw fodel cefnogaeth yn cydymffurfio â safbwynt moesegol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thelerau ac amodau staff.

**Ymateb: Derbyn**
Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chydweithwyr awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn deall ymhellach y galw a'r cynigion am ffyrdd amgen o gyflwyno gwasanaethau cerddoriaeth. Bydd opsiynau o ran ymarferoldeb dulliau darparu amgen hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol er mwyn annog ysgolion i ddefnyddio arbenigedd gwasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru.

**Ymateb: Gwrthod**
Dyma bedwaredd flwyddyn o bump y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol. Byddai'n amhriodol newid y rhaglen mor hwyr yn y dydd.

Mae cerddoriaeth yn rhan hanfodol o'r Cynllun Creadigol ar gyfer Dysgu Creadigol, gyda chymaint o brofiadau'n ymwneud â gweithgareddau cerddorol ac yn defnyddio arbenigwyr cerddorol lleol. Fodd bynnag, mae'n un elfen o gynllun sy'n cynnwys pob ffurf gelfyddydol a does dim modd ei flaenoriaethu dros un arall.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yn:

- Ceisio nodi a defnyddio pawb o fewn y byd cerddoriaeth sy'n gallu ac yn barod i gefnogi dysgu cerddoriaeth i bobl ifanc; a

- Sefydlu a gweithredu cyfres o ddosbarthiadau meistr er mwyn tynnu ar brofiad ac ewyllys da arbenigwyr yn y sector cerddoriaeth.

**Ymateb: Gwrthod**
Mae'r argymhelliad yn dibynnu ar greu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth, y trafodir yn argymhelliad 2. Fodd bynnag, bydd y syniad o greu cynllun ar gyfer addysg cerddoriaeth yn cael ei ystyried fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb a thrwy drafodaethau gyda'r Adran Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried ar y cyd fel mater o frys sut y gall gwaith awdurdodau lleol yng Nghymru o weithredu argymhellion adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen gael ei gyflymu, gyda'r bwriad o adrodd i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Ymateb: Derbyn**
Cafodd diweddariad ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2017. Bydd diweddariad llawn o argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun Gweithredu ar gyfer Cerddoriaeth, yn sefydlu grŵp cynghori parhaol i gynghori a rhoi gwybodaeth iddi am faterion sy'n ymwneud ag addysg cerddoriaeth.

**Ymateb: Gwrthod**

Byddai'r argymhelliad hwn yn dibynnu ar ganlyniad astudiaeth ddichonoldeb a nodir mewn ymateb i Argymhelliad 1, ac mae'n gysylltiedig ag Argymhellion 2 a 6.

Os yw'r astudiaeth ddichonoldeb yn argymell creu corff hyd braich, rydym yn rhagweld y byddai'n cyflawni rôl grŵp cynghori parhaol. Fodd bynnag, pe na bai'n argymell corff hyd braich, byddwn yn fodlon ailystyried opsiynau'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'n sylweddol y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer prynu offerynnau cerdd ac yn eu dosbarthu ar sail angen. Dylid gwneud hyn fel mater o frys a dylid ei anelu at wella'r sefyllfa yn y byrdymor, i gwmpasu'r cyfnod cyn bod corff cenedlaethol yn gallu cymryd cyfrifoldeb llawn dros wasanaethau cerddoriaeth.

**Ymateb: Derbyn**
Mae hwn ar waith yn barod. Cynhaliwyd amnest a dosbarthwyd yr offerynnau cerdd.

Mae trafodaethau gyda CLlLC ar y ffordd orau o ddyrannu'r £1 filiwn y flwyddyn a ddarperais ar gyfer 2018-19 a 2019-20 ar gyfer y maes cerddoriaeth yn mynd rhagddynt yn dda, a chyn hir, byddaf yn cyhoeddi sut yn union y caiff yr arian hwn ei ddefnyddio.

Bydd hyn yn cynnwys cynnig i roi £10,000 i bob awdurdod lleol eleni tuag at brynu offerynnau cerdd.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol gan ganolbwyntio ar gamau ymarferol i sicrhau cysondeb o ran cyfle ledled Cymru.

**Ymateb: Derbyn**
Cafodd adolygiad Estyn ei gyhoeddi yn ddiweddar, a bydd angen i'r argymhelliad hwn gyd-fynd â'r adolygiad a blaenraglen waith gyfredol Estyn. Felly, ni allwn weithredu'r argymhelliad hwn ar unwaith, ond byddwn yn cydweithio ag Estyn i nodi amserlen addas.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o gyllid Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer addysg cerddoriaeth.

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r Grant Datblygu Disgyblion eisoes yn hyrwyddo addysg cerddoriaeth, a llawer o ysgolion yn defnyddio'r grant at y diben hwn. Mater i'r ysgolion unigol yw defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, wrth gwrs, ar sail eu blaenoriaethau penodol nhw. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried diwygio'r canllawiau cyfredol sy'n cefnogi'r Grant Datblygu Disgyblion, a gallai hyn gynnwys astudiaethau achos sy'n dangos sut mae modd defnyddio'r grant i ariannu addysg cerddoriaeth.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yn:

- darparu cyfeiriad strategol i awdurdodau lleol ac ysgolion ar ffyrdd o integreiddio a hybu'r gwaith o addysgu ffurfiau llai traddodiadol o gerddoriaeth; ac

- annog sefydlu ensembles roc a phop, a chystadlaethau cenedlaethol sy'n seiliedig ar roc a phop.

**Ymateb: Gwrthod**
Mae'r argymhelliad hwn yn amodol ar greu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, sy'n gysylltiedig ag argymhellion 2, 6 ac 8.

Er hynny, rwy'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar bob math o genre cerddorol fel y gallant ddysgu a chael eu hysbrydoli gan gerddoriaeth sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Felly, rwy'n bwriadu parhau i weithio gyda'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, a byddaf yn ei holi am ensembles a chystadlaethau ar gyfer ffurfiau llai traddodiadol o gerddoriaeth, gan gynnwys ensembles roc a phop.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn rhoi mecanweithiau a chyllid digonol ar waith er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl, sy'n dymuno symud ymlaen at ragoriaeth, yr adnoddau i wneud hynny.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Lle Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yw ymateb i hyn yn gyntaf, ac rwy'n deall y byddant yn rhoi ateb uniongyrchol i'r Pwyllgor maes o law.

Mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (CCIC) yn sefydliad newydd, sydd yn ei flwyddyn gyntaf, ac yn wynebu'i heriau ei hun o ganfod ei droedle o fewn y sector. Nid yw CCIC (a'i ragflaenwyr) yn draddodiadol gysylltiedig â'r broses o sicrhau mynediad cyffredinol at addysg cerddoriaeth. Fodd bynnag, rwy'n deall bod CCIC yn awyddus i gyfrannu at y maes hwn lle gallai ddefnyddio ei arbenigedd er mwyn helpu i feithrin talent a chyfleoedd i hyrwyddo hyn.

Rhagwelir y bydd yr astudiaeth ddichonoldeb o bosib yn nodi rôl ar gyfer CCIC, er ei bod hi'n llawer rhy gynnar ar hyn o bryd i ragweld beth fydd y rôl hon yn union.

Yn y cyfamser, bydd swyddogion y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn trafod yr argymhelliad hwn gyda CCIC a Cyngor y Celfyddydau (sy'n darparu'r cyllid craidd i CCIC) er mwyn trafod goblygiadau'r argymhelliad hwn.

Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth yn y man.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ffyrdd o fonitro cyfansoddiad yr ensembles cenedlaethol i sicrhau eu bod mor gynhwysol o'r holl grwpiau

cymdeithasol â phosibl. Dylid mynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd yn eu cyfansoddiad fel mater o frys. Dylid adolygu'r data yn rheolaidd a chymryd y camau priodol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Eto, mater i Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yw ymateb i hyn yn bennaf, yn rhinwedd ei swydd fel rheolwr yr Ensembles Cenedlaethol – ac mae'n siŵr y bydd hyn yn cael ei drafod mewn ymateb i'r Pwyllgor. Deallaf fod hwn yn faes y mae CCIC eisoes yn ymwybodol ohono ac yn awyddus i fynd i'r afael ag ef.

Nodi unrhyw anghydbwysedd o fewn ensembles yw'r elfen hawsaf o ddwy elfen yr argymhelliad hwn i'w taclo. Yr elfen anoddaf yw sut i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau a nodwyd, a fydd, heb os, yn gofyn am ragor o gyllid ac adnoddau.

Fel argymhelliad 13 uchod, bydd swyddogion o'r Adran Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn codi'r mater hwn gyda Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Cyngor y Celfyddydau er mwyn trafod goblygiadau'r argymhelliad.

Fe gewch chi'r manylion diweddaraf am ein trafodaethau maes o law.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cymryd camau i sicrhau bod mwy o eglurder o ddiben rhwng y Gronfa Waddol a Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn y cyllid elusennol y maent yn ei geisio er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ac i annog cydweithio rhyngddynt.

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r ddau faes gwaith hwn yn ategu'i gilydd, yn hytrach na dyblygu ei gilydd. Wrth iddo ddatblygu, ac wrth i'r swyddogaeth a'i stamp ddod yn gliriach, bydd yr holl waith a gyflawnwyd gan y Gronfa Waddol yn parhau er mwyn sicrhau bod y sefyllfa hon yn eglur.

Rydym wrthi'n datblygu strategaeth ariannu ar gyfer *Anthem* – Cronfa Gerdd Cymru, a fydd yn sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar strategaeth gyllido Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru neu unrhyw sefydliadau celfyddydol eraill.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r cyllid sydd ar gael i'r Gwaddol Cenedlaethol ac yn ystyried cyfraniadau cyfalaf ychwanegol os bydd angen.

**Ymateb: Derbyn**
Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Bwrdd *Anthem*, a rhanddeiliaid allweddol eraill, a byddaf yn ystyried cyfraniadau cyllid pellach, yn amodol ar gyflawni'r amcanion penodol.